Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Dyffryn Nantlle
Ffordd Y Brenin
Penygroes
Gwynedd
LL54 6RL

06/03/2025

Annwyl Rhian Parry Jones

**Ymweliad Interim:** Chwefror 2025

Diolch am eich cefnogaeth gyda'r ymweliad interim. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd. Roedd hi'n braf profi'r ymagwedd agored a ddangosodd eich staff yn ystod y trafodaethau.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- gynnal trafodaethau gydag uwch arweinwyr am eich prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, a'ch gwaith i wella'r ddarpariaeth rhifedd
- siarad â'r disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol
- ymweld â gwersi mewn amrywiaeth o bynciau i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith
- graffu ar sampl o waith y disgyblion
- siarad ag arweinwyr canol am eu gwaith a chlywed am yr heriau y maen nhw'n eu hwynebu a sut maen nhw'n ymateb i'r heriau hyn
- ymgymryd â gwaith craffu a gweithgareddau arsylwi gwersi gydag uwch arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn

**Ffocws yr ymweliad**

**Pa mor effeithiol yw prosesau gwella'r ysgol wrth arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau?**

Braf oedd clywed bod yr uwch dîm arwain wedi parhau i ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd addas ers yr arolygiad craidd. Mae hyn yn cynnwys cyd-arsylwi gwersi a chyd-graffu gwaith disgyblion gyda phenaethiaid adran. Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn synhwyrol ac yn canolbwyntio'n briodol ar weithredu ar argymhellion yr arolygiad craidd a gwella presenoldeb disgyblion.

Mae rheolwyr canol yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell ac mae cyfleoedd defnyddiol i drafod y cynlluniau gwella adran a chynnydd disgyblion yn ystod y sesiynau yma. Clywsom bod arweinwyr yn cynnal hyfforddiant buddiol ar agweddau pwysig o ddysgu ac addysgu ac mae cyfleoedd rheolaidd i staff i rannu arfer dda.

Byddai'n ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- A yw'r cyfleoedd i gyd-arsylwi a chyd-graffu yn ffocysu'n ddigon miniog ar safonau a chynnydd disgyblion er mwyn adnabod yr union agweddau o'r addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau sydd angen eu gwella?
- A yw arweinwyr bob amser yn ystyried a yw'r ddarpariaeth yn ddigon heriol wrth gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd?
- Yn dilyn gweithgareddau sicrhau ansawdd, sut mae modd sicrhau bod athrawon yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi eu teilwra i ddatblygu agweddau penodol o'u haddysgu?

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion?**

Ers yr arolygiad craidd mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o gyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Yn synhwyrol, mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn pynciau lle mae'r cyfleoedd yn codi yn naturiol. Mae'r tasgau wedi eu cynllunio fel eu bod yn cyfoethogi'r dysgu o fewn y pynciau, er nad ydynt bob amser yn ddigon heriol. Mae strwythur arwain newydd o fewn maes rhifedd ac mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o ansawdd y cyfleoedd a beth sydd angen ei wneud i wella'r ddarpariaeth. Mae'r ysgol wedi adnabod bod medrau rhif sylfaenol gwan gan garfan sylweddol o ddisgyblion. Maent yn darparu ymyraethau priodol i wella medrau rhif disgyblion iau yr ysgol yn ystod cyfnodau cofrestru. Maent hefyd wedi dechrau cydweithio gyda'u ysgolion cynradd partner er mwyn sicrhau bod profiadau dysgu yn yr uwchradd yn adeiladu yn gynyddol ar yr hyn mae disgyblion wedi ei ddysgu yn y cynradd.

Teimlwn y byddai'n werth ystyried:

- A oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hyfedreddau mathemategol?
- A yw'r holl dasgau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn cynnig her addas i sicrhau bod pob disgybl yn meddwl yn ddwfn wrth eu cyflawni?
- A yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd yn eu gwersi mathemateg i ail-ymweld â gwaith o'r gorffennol er mwyn gwella eu adalw hir-dymor o gysyniadau mathemategol?

Diolch eto am eich cymorth wrth wneud y trefniadau a hoffwn ddymuno'n dda i chi gyda'ch gwaith gwella.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: [Ysgol Dyffryn Nantlle - Estyn]

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol